# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel – Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Tachwedd 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15437

# 313

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 14.26

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.19

**Atebwyd gan y Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**

Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar oblygiadau penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar blismona yng Nghymru?

**Atebwyd gan y Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar ddatblygiad gorsaf bŵer niwclear adweithydd modiwlar bach gyntaf y DU yn Wylfa?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.54

Gwnaeth Rhun ap Iorwerth ddatganiad ar - Trefor Lloyd-Hughes.

Gwnaeth Rhys ab Owen ddatganiad ar - Diwrnod Cynamseroldeb y Byd.

## 5 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2026-27

Dechreuodd yr eitem am 15.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM9052** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2026-27, fel y'i nodir yn Nhabl 1 o Gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2026-27, a osodwyd gerbron y Senedd ar 12 Tachwedd 2025, a'i bod yn cael ei hymgorffori yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 13 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 16.22

**NDM9051** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 13.6 dros dro i ganiatáu i Aelodau gyfrannu fwy nag unwaith yn ystod y Ddadl Agored ar NDM9046 yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 19 Tachwedd 2025.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Agored

Dechreuodd yr eitem am 16.22

**NDM9046** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

A fyddai treth gyfoeth yn gweithio i Gymru?

**Cyd-gyflwynwyr**

John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cefnogwyr**

Mick Antoniw (Pontypridd)

**Am 18.04, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 6 munud.**

## 8 Dadl Plaid Cymru - Cyllideb y DU a datganoli

Dechreuodd yr eitem am 18.10

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM9054** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cyllideb hydref Llywodraeth Lafur y DU sydd ar ddod, ac a gaiff ei chyhoeddi ar 26 Tachwedd.

2. Yn gresynu bod digwyddiadau cyllidol blaenorol gan Lywodraeth Lafur bresennol y DU wedi methu â chyflawni addewidion hirdymor a wnaed i bobl Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefyll i fyny dros fuddiannau pobl Cymru drwy wneud sylwadau i Lywodraeth Lafur y DU, a chyhoeddi'r ohebiaeth berthnasol, i:

a) datblygu cynllun clir, gydag amserlenni penodol, i ddatblygu fformiwla ariannu newydd ar gyfer Cymru yn seiliedig ar angen, ac wedi'i gosod ar sail statudol;

b) gwrthdroi newidiadau i'r dreth etifeddiant ar ffermydd teuluol, ac ad-dalu'n llawn i sector cyhoeddus Cymru am newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr;

c) galluogi'r Senedd i osod ei bandiau treth incwm ei hun;

d) uwchraddio pwerau benthyca a therfynau tynnu i lawr y Senedd ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru yn unol â chwyddiant fel cam cyntaf tuag at foderneiddio ei phensaernïaeth gyllidol;

e) darparu cyllid canlyniadol llawn sy'n ddyledus i Gymru o'r prosiect HS2;

f) datganoli Ystad y Goron er mwyn galluogi Cymru i elwa'n deg o'i hadnoddau naturiol ei hun;

g) dileu'r cap budd-dal dau blentyn;

h) datganoli pwerau cyfiawnder a phlismona yn llawn i Gymru; ac

i) cyflwyno treth cyfoeth o 2 y cant ar asedau dros £10 miliwn a gwneud treth enillion cyfalaf yn gyfartal â threth incwm i symud ailddosbarthu ymlaen a darparu cymorth costau byw mwy cadarn i aelwydydd Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 11 | 0 | 37 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Dileu popeth ar ôl pwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y**
**Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.**
**Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ym mhwynt 3, dileu is-bwyntiau a) i i) a rhoi yn eu lle:

a) adolygu'r fframwaith cyllidol ar
gyfer Cymru, gan gynnwys pwerau benthyca a therfynau tynnu i lawr;

b) gwrthdroi'r newidiadau treth etifeddiant ar
gyfer ffermydd teuluol a chwmnïau teuluol;

c) gwrthdroi'r cynnydd mewn yswiriant gwladol cyflogwyr ac ad-dalu Cymru
am fethu ag ariannu costau llawn y rhain hyd yma;

d) diystyru unrhyw godiadau treth newydd;

e) diogelu'r clo triphlyg ar bensiynau'r wladwriaeth;

f) darparu cyllid canlyniadol i Gymru o ganlyniad i wariant ar HS2
a buddsoddiadau rheilffyrdd Rhydychen a Chaergrawnt;

g) adfer cyllid ar gyfer trydaneiddio prif linell Gogledd Cymru;

h) cynyddu buddsoddiad i ddiogelu ffiniau'r DU ym mhorthladdoedd Cymru i atal mewnfudo anghyfreithlon; ac

i) darparu adnoddau ychwanegol i ddarparu ffordd liniaru'r M4
ac uwchraddio cefnffordd yr A55, o ystyried eu pwysigrwydd fel llwybrau strategol ar gyfer cysylltedd y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 35 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gan fod y Senedd wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio,**
**ac wedi gwrthod y gwelliant i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

## 9 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Pedwerydd adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Dechreuodd yr eitem am 19.13

**NDM9053** Hannah Blythyn (Delyn)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad — Y pedwerydd adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd a osodwyd gerbron y Senedd ar 12 Tachwedd 2025 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad fod rheol wedi ei thorri.

3. Yn penderfynu y caiff yr Aelod ei wahardd o drafodion y Senedd o dan Reol Sefydlog 22.10(iii) am gyfnod o 14 diwrnod, ac eithrio dyddiau yn ystod toriad y Senedd, gan ddechrau'n syth wedi i'r cynnig hwn gael ei dderbyn a chan ddod i ben dim hwyrach na hanner nos ar 3 Rhagfyr 2025.

4. Yn nodi na fydd yr Aelod yn cael hawlio unrhyw gyflog gan y Senedd ar gyfer y dyddiau y mae pwynt 3 uchod yn gymwys ar eu cyfer, yn unol â Rheol Sefydlog 22.10A

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 19.19

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 19.23

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 25 Tachwedd 2025**